

Datganiad i'r wasg

15 Rhagfyr 2009

CD UNIGRYW YN CAEL HELP LLAW BUSNES LLEOL

Mae Pugh Computers, sy'n un o brif gyflenwyr meddalwedd ar gyfer byd addysg, elusennau a myfyrwyr wedi ei leoli yn un o blwyfi mwyaf cerddorol Cymru. Ac os oes angen tystiolaeth fod hynny'n wir, does dim angen edrych yn bellach na CD newydd sydd i'w lawnsio yn Llanerchaeron nos Fawrth, 15fed o Ragfyr sy'n cynnwys lleisiau a thalentau unigolion o blwyf Llansanffraed yng Ngheredigion.

Deuawd rhwng y delynores enwog Catrin Finch, a gafodd ei magu yn Llan-non a Tommi Jones, sydd yn ei wythdegau ac yn chwarae'r lli yw un o'r traciau ar y CD. Bydd eu fersiwn o'r alaw werin Gymreig, 'Yr Eneth Gath ei Gwrthod' yn rhan o CD Lleisiau Llansanffraed ochr yn ochr ag artistiaid lleol eraill megis Dafydd a Gwawr Edwards, Ifor Lloyd a hyd yn oed Prif Weithredwr Cyngor Ceredigion, Bronwen Morgan sy'n adrodd detholiad o waith y diweddar John Roderick Rees, oedd hefyd yn frodor o'r ardal.

Ond nid y perfformiadau yn unig sydd o ardal Llansanffraed. Fe gafodd y CD ei gynhyrchu gan label lleol, Troedyrhiw ac mae un o brif gyflogwyr yr ardal, Pugh Computers hefyd yn chwarae rhan fawr yn sicrhau fod y CD yn llwyddiant drwy gynnal y lawns, dan nawdd y cwmni yn Llanerchaeron.

"Fel un o brif gyflenwyr meddalwedd ar gyfer sefydliadau addysgol, elusennau a myfyrwyr, rydym yn teimlo'n gryf y dylem gefnogi mentrau sy'n gwneud gwahaniaeth ar lawr gwlad," medd Jeffrey Pugh, Rheolwr Gyfarwyddwr Pugh Computers. "Mae'r Urdd, fel sefydliad yn cyffwrdd bywydau bron bob un ohonom sy'n rhan o'r cwmni ac rydym yn falch iawn o gael cefnogi lawns y CD unigryw yma sy'n cynnwys cymaint o dalent lleol ac a fydd o gymorth i ariannu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd y flwyddyn nesaf yn Llanerchaeron.

"Mae'r elfen leol yn bwysig i ni fel cwmni ac mae'n braf gweld cymuned, fel ein un ni yn dod at ei gilydd i gynhyrchu CD o'r safon uchaf. Mae'r CD yn gryn gamp i gymuned fechan. Mae'n cynnwys dau ddeg dau o artisitaid yn ogystal â phlant lleol. Mae pawb wedi gweithio'n galed iawn ac rwy'n dymuno pob llwyddiant iddynt," medd Jeffrey Pugh.

Y gŵr sy'n gyfrifol am y syniad yw'r cerddor lleol Gerallt Lewis. Un sy'n edrych ymlaen at glywed ffrwyth ei lafur ar y CD arbennig hwn yw Tommi Jones.

Mae Tommi, sy'n byw ym Mhenuwch wedi bod yn chwarae'r lli ers 1947. Fe gafodd ei gyflwyno i'r offeryn tra yn y fyddin yn yr India. "Roedd 'na nifer o artisitaid yn dod allan i'r India i'n diddanu ni," eglura Tommi sy'n 88 mlwydd oed. "Roedd Gracie Fields yn un ac fe ddaeth unigolion o Gerddorfa

Symffoni Lerpwl hefyd. Fe chwaraeodd un o'r rhain y lli ac fe benderfynais yn y fan a'r lle y byddwn i'n rhoi tro ar chwarae'r teclyn ar ôl dychwelyd i Gymru.

"Fe brynais fy lli cytaf mewn siop gerddoriaeth yn Aberystwyth ond doedd o ddim gwerth. Roedd yn neidio *octave* heb rybudd. Fe gefais gyngor wedyn i brynu un yn siop y Co-Op ac rwy'n dal i chwarae'r un lli a brynais yn y Co-Op yn 1950."

Mae Tommi'n cyfaddef ei fod yn eithaf nerfus wrth feddwl am ganu deuawd gyda Catrin. "Ro'n i'n reit nerfus gan fod Catrin yn gerddor sydd wedi cyflawni gymaint. Ond doedd dim rhaid i mi boeni gan fod sŵn eithaf telynegol i'r lli ac mae'r ddau offernyn yn gweddu'n dda i'w gilydd. Wedi i ni recordio'r ddeuawd ro'n i'n teimlo'n falch iawn mod i wedi cael y cyfle i weithio efo Catrin ac fe hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Gerallt Lewis a'i frawd Euros. Hebddynt, fydde hyn heb ddigwydd," meddai.

Fe gafodd Catrin Finch ei magu ym mhentref Llan-non ac roedd wrth ei bodd o gael bod yn rhan o'r CD ac i ganu deuawd gyda Tommi. Meddai, "Roedd yn brosiect diddorol a dyma'r tro cyntaf i mi gael y cyfle i chwarae deuawd efo'r lli. Fe recordiodd Tommi ddarn y llif i ddechrau ac fe ddaeth y trac draw atom ni i stiwdio Acapela er mwyn i mi gael recordio dan y delyn," meddai.

Diwedd

Cyswllt: Non Tudur Williams: nontudur@urdd.org / 07968 446369

Fe lawnsir Lleisiau Llansanffraed yn Llanerchaeron, ger Aberaeron nos Fawrth, 15 Rhagfyr. Y pris fydd £10 ar y noson a £13 wedi hynny.

Press Release

15 December 2009

LOCAL BUSINESS LENDS A HAND TO BOOST UNIQUE CD

Pugh Computers, one of the country's leading suppliers of discount software for education, charities and students is located at the heart of one of Wales' most musical parishes. And anyone wanting proof of that statement need look no further than a brand-new CD to be launched at the National Trust property of Llanerchaeron next Tuesday, 15th December which features the voices and talents of individuals from the parish of Llansanffraed in Ceredigion.

The CD features a unique duet between Catrin Finch, who was raised in Llan-non and Tommi Jones, and octogenarian hand-saw player. Their take on the Welsh folk song 'Yr Eneth Gath ei Gwrthod' will feature on Lleisiau Llansanffraed (The Voices of Llansanffraed) alongside other local artists including singers Dafydd and Gwawr Edwards, Ifor Lloyd and even the Chief Executive of Ceredigion County Council reciting extracts of the late John Roderick Rees' works, himself a native of the area.

Not only are the CD's performances from the Llansanffraed area, the production was also undertaken by local label *Troedyrhiw*. One of the area's largest employers is Pugh Computers and they too are playing a large part in ensuring the CD's success by hosting the launch at Llanerchaeron.

“As one of the country’s leading suppliers of discount computer software for education, charities and students, we feel strongly about supporting initiatives that make a real difference on the ground,” said Jeffery Pugh, Managing Director of Pugh Computers. “The Urdd, as an organisation touches the lives of almost all of us at the company in one way or another and we’re delighted to be supporting the launch of this unique CD which features so much local talent and will help towards funding the Urdd National Eisteddfod which will be held in Llanerchaeron next year.

“The local element is always important to us as a company which is why it’s wonderful to see a community such as ours come together to produce a CD of such high standard. The CD is a great achievement for a small community. It features twenty-two performing artists as well as local children. Everyone has worked very hard and I wish them every success,” concluded Jeffrey Pugh.

The CD, the brainchild of local musician Gerallt Lewis will be launched on Tuesday, 15 December at the National Trust property of Llanerchaeron and one who is looking forward to seeing and hearing the CD for himself is Tommi Jones.

Tommi, who lives in Penuwch has been playing the hand-saw since 1947. He was introduced to the instrument while serving in the army in India. “We had lots of performing artists come out to India to entertain the troops,” explained Tommi who is 88 years old. “Gracie Fields was one and we also had individual musicians from the Liverpool Symphony Orchestra. One of those brought out a hand saw during the performance and started to play. I decided then and there that I’d give it a try when I returned to Wales.

“I bought my first saw from a music shop in Aberystwyth but it wasn’t any good as it would jump an octave without warning. So I was told to go to the Co-op, which I did and I still play the saw I bought from there in 1950.”

Tommi admits he was more than a little nervous at the proposition of a duet with Catrin. “I was very nervous as Catrin is such an accomplished musician. But I didn’t have to worry because the saw has a lyrical quality and it’s enhanced by the melodic harp. Once the recording had taken place I felt very proud and honoured to have had the opportunity to work with Catrin and I’d like to thank Gerallt Lewis and his brother Euros. Without them, this wouldn’t have happened,” he said.

Catrin Finch was raised in the village of Llan-non and she was delighted to be part of this compilation CD and to duet with Tommi. She said, “It was a really interesting project. I’d never played with the saw before. Tommi recorded his piece first and the track was brought to our music studio, Acapela in Pentyrch for me to record the harp accompaniment.”

Ends

Contact: Non Tudur Williams: nontudur@urdd.org / 07968 446369

Lleisiau Llansanffraed will be launched at Llanerchaeron, near Aberaeron on Tuesday 15 December. CD’s will be available to buy at the event, priced £10 and will be £13 thereafter.